

Cymuned yn archwilio ei gorffennol
Chwilota'r Tywi!



A community exploring their past
Exploration Tywi!



Cydnabyddiaethau

Ni fyddai *Chwilota'r Tywi!* wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth a brwdfrydedd llawer o bobl. Rydym yn ddiolchgar i bawb a adawodd i ni fynd ar eu tir fel y gallai'r ymchwiliadau a'r arolygon gael eu gwneud. Roedd llawer o gyrff yn cefnogi'r prosiect mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Geoparc Fforest Fawr a chwaraeodd ran helaeth yn y digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Garn Goch. Cyfrannodd llawer o unigolion eu hamser a'u harbenigedd, ac eto heb ymrwymiad a brwdfrydedd y gwirfoddolwyr a gymerai ran ac a weithiodd mor galed ni fyddai *Chwilota'r Tywi!* wedi cyflawni gymaint. Bydded i'w harchwilio barhau!

Cyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed 2011
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed,
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF

Testun gan Mike Ings, Alice Pyper
gyda chyfraniad gan Anna Jones
Mapiau gan Hubert Wilson
Dylunio gan mopublications.com
ISBN 978-0-948262-10-4

Acknowledgements

Exploration Tywi! would not have been possible without the support and enthusiasm of many people. We are grateful to everyone who provided access to their land to allow the investigations and surveys to be carried out. Many organisations supported the project in various ways including Environment Agency Wales, the Brecon Beacons National Park Authority and Fforest Fawr Geopark who played a large part in the events held at Carn Goch. Many individuals and organisations contributed their time and expertise, yet without the dedication and enthusiasm of the volunteers who took part and worked so hard *Exploration Tywi!* would not have achieved so much. Long may their explorations continue!

Published by Dyfed Archaeological Trust 2011
Dyfed Archaeological Trust,
The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo,
Carmarthenshire SA19 6AF


Text by Mike Ings, Alice Pyper
with contribution by Anna Jones
Maps by Hubert Wilson
Design by mopublications.com
ISBN 978-0-948262-10-4

ARIANWYR

Mae *Chwilota'r Tywi!* yn rhan o brosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Mae'r prosiect hwn wedi cael ei ariannu drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol; a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Menter Bro Dinefwr.

FUNDERS

Exploration Tywi! forms part of the Tywi Afon yr Oesoedd project. This project has received funding through the National Heritage Lottery Fund; and The Rural Development Plan for Wales 2007-2013 which is funded by the Welsh Assembly Government and the European Agricultural Fund for Rural Development. The project is a partnership between Carmarthenshire County Council, The National Trust, Countryside Council for Wales and Menter Bro Dinefwr.



Cymuned yn archwilio ei gorffennol

Chwilota'r Tywi!



A community exploring their past

Exploration Tywi!

Chwilota'r Tywi! – cyflwyniad i'r prosiect

Mae Dyffryn Tywi yn Sir Gaerfyrddin, gorllewin Cymru, yn cael ei goleddu fel tirwedd hanesyddol bwysig, ac mae'n enwog am ei olygfeydd o safon sydd wedi eu ffurfio gan iâ, dŵr a dyn. Mae ganddo gyfoeth o drysorau yn cynnwys ceirydd a chestyll, parcdiroedd a gerddi, a threfi a phentrefi llawn cymeriad.

Roedd y prosiect *Tywi Afon yr Oesoedd* yn canolbwyntio ar yr ardal rhwng Llangadog a Dryslwyn. Anelai at gryfhau cysylltiadau'r gymuned â'r dirwedd drwy ennill gwell dealltwriaeth a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i edrych ar ôl eu tirwedd. Gellir dod o hyd i fwy am y prosiect ar www.tywiafonyroesoedd.co.uk

Mae'r llyfryn hwn yn dathlu'r hyn a gyflawnwyd gan un thema yn y prosiect, *Chwilota'r Tywi!* ymchwiliad gan y gymuned i ddechreuadau a hanes y dyffryn. Roedd rhaglen o weithgareddau dan arweiniad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn mynd ag ysgolion, grwpiau diddordeb lleol ac aelodau o'r cyhoedd ar daith o ddarganfyddiadau mewn archaeoleg a daeareg. Nod y llyfryn yw cydnabod yr hyn a gyflawnwyd gan y rhai a gymerai ran yn *Chwilota'r Tywi!* ac ysbrydoli archwilio pellach gan breswylwyr Dyffryn Tywi a phobl o bellach draw.

Exploration Tywi! – introduction to the project

The Tywi valley in Carmarthenshire, west Wales, is cherished as an important historic landscape, renowned for its scenic qualities that have been shaped by ice, water and man. It boasts a wealth of treasures including forts and castles, parkland and gardens, charismatic towns and villages.

The *Tywi a River Through Time* project focused on the area between Llangadog and Dryslwyn. It aimed to strengthen the community's links with the landscape by gaining a better understanding and developing the skills needed to look after their landscape. More about the project can be found at

www.tywiafonyroesoedd.co.uk

This booklet celebrates the achievements of one theme of this project, *Exploration Tywi!* an investigation by the community into the origins and history of the valley. A programme of activities, led by the Dyfed Archaeological Trust, took schools, local interest groups and members of the public on a journey of archaeological and geological discovery.

The aim of this booklet is to acknowledge the achievements of the *Exploration Tywi!* participants and to inspire further exploration both by the residents of the Tywi valley and people further afield.



CYNNWYS

- 6 **Hanes cryno Dyffryn Tywi**
- 8 **Deall dyffryn sy'n newid**
- 10 **Adolygu'r dystiolaeth**
Parcdiroedd Dyffryn Tywi
Teithio drwy amser
- 16 **Casglu tystiolaeth newydd**
Cofnodi cloddiau
Arolwg mynwent
Ditectifs Tai
- 26 **Profi'r Damcaniaethau**
Gwerthusiadau
Cloddiaid Wernfawr
- 34 **Synhwyro'r gorffennol**
Ymweliadau ysgolion
Gŵyl y Synhwyrâu
Rhyfel yn y Dyffryn
Gŵyl y Garn Goch
- 43 **Map o'r ardal dan astudiaeth**

CONTENTS

- 6 **A brief history of the Tywi valley**
- 8 **Understanding a changing valley**
- 10 **Reviewing the evidence**
Parklands of the Tywi valley
Travelling through time
- 16 **Gathering new evidence**
Hedgerow recording
Churchyard survey
House detectives
- 26 **Testing the theories**
Evaluations
Wernfawr excavation
- 34 **Sensing the past**
School visits
Festival of the Senses
Valley at war
Carn Goch festival
- 43 **Map of the study area**



Hanes cryno Dyffryn Tywi – persbectif archaeolegol

Cynhanes

Mae rhychwant amser gweithgaredd dyn yn ardal astudio Dyffryn Tywi yn ymestyn yn ôl cyn diwedd yr Oes Iâ ddiwethaf pan oedd pobl Balaeolithig yn hela ceirw ar dirwedd debyg i dwndra. Cerfiwyd y dyffryn gan y rhewlifoedd wrth iddynt gilio ac wrth i'r hinsawdd gynhesu, roedd coedwigoedd yn codi a dychwelodd bodau dynol yn y cyfnod Mesolithig. O tua 6000 o flynyddoedd yn ôl nodwedid y cyfnod Neolithig gan amaethu. Yng Nghwmfôr mae safle anheddu Neolithig helaeth wedi ei gofnodi yn cynnwys nifer o bydewau a thyllau pyst, a chanfuwyd esgyrn llosg, cerrig fflint a golosg yno. Yn y cyfnod hwn y codwyd yr henebion archaeolegol cynharaf yn cynnwys beddrod siambr ger Bethlehem, Llangadog.

Yn ystod yr Oes Efydd (tua 2000-750CC) o dipyn i beth aeth y defnydd ar fetel ar led. Y dystiolaeth fwyaf nodedig o weithgaredd dyn yn Nyffryn Tywi bryd hynny, eto, yw safleoedd angladdol a defodol. Mae tomenni claddu cerrig a phridd i'w gweld ar y gorwel, gydag enghreifftiau da yn Nhrichrug a Thair Cairn Isaf ac Uchaf, ar y Mynydd Du. Wrth i'r hinsawdd waethgu at ddiwedd yr Oes Efydd symudai'r anheddu o'r tiroedd uchel ac mae'n debyg i'r Oes Haearn weld cynnydd yn y boblogaeth yn Nyffryn Tywi, gan arwain at wrthdaro o bosib. Codwyd aneddiadau amddiffynedig ar fannau uchel, gan gynnwys bryngerydd y Garn Goch uwchben Bethlehem.

O'r chwith: Beddrod siambr Neolithig ger Bethlehem, bryngaer Carn Goch o'r Oes Haearn, niwloedd yn y bore bach o dan Castell Dryslwyn, Parc Dinefwr.

Hanesyddol

Daeth y Rhufeiniaid i Ddyffryn Tywi, ei weld a'i oresgyn, gan sefydlu ceirydd yn Llanymddyfri, Llandeilo a Chaerfyrddin, wedi'u cysylltu gan rwydwaith o ffyrdd. Mae safleoedd sifiliaid yn yr ardal yn cynnwys y fila yn Llys Brychan, ar bwys Llangadog, a'r anheddiad brodorol neu'r ficws a dyfodd heibio i byrth caer Llandeilo. Roedd presenoldeb milwrol Rhufain wedi dod i ben erbyn dechrau'r 5ed ganrif a daeth Cymru Gristnogol yn endid gwleidyddol pendant, yn hollol ar wahân i Loegr baganaidd yr Eingl-Sacsoniaid. Yn y cyfnod hwn, yr oesoedd canol cynnar, roedd Dyffryn Tywi yn rhan o frenhiniaeth y Deheubarth, a sefydlwyd gan Hywel Dda.

Yn dilyn Concwest y Normaniaid roedd Dyffryn Tywi ar flaen y gad am rym rhwng tywysogion Cymru a'r goresgynwyr Eingl-Normanaidd am flynyddoedd maith. Codwyd cestyll gan y Cymry yn y Dryslwyn a Dinefwr yn gynnar yn y 12fed ganrif ond roedd yr ardal dan reolaeth y Saeson erbyn diwedd y 13eg ganrif.

Dim ond pedair tref a ddangosir yn ardal yr astudiaeth ar fap o 1578 – Llandeilo, Llanymddyfri, Llangadog a'r Newton – ac ni sefydlwyd dim pentrefi newydd yn dilyn dylifiad yr Eingl-Normaniaid. Prin yw'r anheddu wedi bod erioed ar orlifdir Afon Tywi, gyda ffermydd anghysbell wedi eu codi ar "ynysoedd" yn yr ardaloedd sy'n dueddol o gael eu gorlifo. Datblygodd ystadau mawr rhwng yr 17eg ganrif a'r 19eg ganrif, yn cynnwys Dinefwr ac Abermarlais, a'r grŵp hwn o barciau a gerddi cynlluniedig mae'n debyg yw treftadaeth hanesyddol fwy anhygoel y dyffryn.

A brief history of the Tywi valley – an archaeological perspective

Prehistoric

The timespan of human activity within the Tywi study area stretches back to before the end of the last Ice Age when Palaeolithic people hunted deer on a tundra-like landscape. The valley was carved out by the retreating glaciers and as the climate warmed up, forests emerged and humans returned, in the period referred to as the Mesolithic. From around 6000 years ago the Neolithic period was characterised by farming. An extensive Neolithic occupation site comprising numerous pits and post-holes, with finds of burnt bone, flints and charcoal, has been recorded at Cwmfôr. It is in this period that the earliest archaeological monuments including a chambered tomb near Bethlehem, Llangadog were built.

During the Bronze Age (c2000-750BC) the use of metal gradually became widespread. The most notable evidence for human activity at this time within the Tywi valley is, again, funerary and ritual sites. Stone and earth burial mounds mark the skyline, with good examples at Trichrug and Tair Cairn Isaf and Uchaf, on the Black Mountain. Deteriorating climate towards the end of the Bronze Age resulted in settlement moving away from the uplands and it is likely that the Iron Age saw an increase of population in the Tywi valley, possibly leading to conflict. Defended settlements were built on high points, including the Carn Goch hillforts above Bethlehem.

Historic

The Romans came, saw and conquered the Tywi valley, establishing forts at Llandovery, Llandeilo and Carmarthen, linked by a network of roads. Civilian sites in the area include the villa at Llys Brychan, near Llangadog, and the native settlement or vicus that grew beyond the gates of Llandeilo fort. The Roman military presence in Britain ended by the early 5th century and Christian Wales became a distinct political entity, quite separate from pagan Anglo-Saxon England. During this early medieval period the Tywi valley was within the kingdom of Deheubarth, founded by Hywel Dda. Following the Norman Conquest the Tywi valley was on the frontline of power between the Welsh princes and the Anglo-Norman invaders for many years. The Welsh castles at Dryslwyn and Dinefwr were built early in the 12th century but the area was under English control by the end of the 13th century.

A map from 1578 shows only four towns within the study area – Llandeilo, Llandovery, Llangadog and Newton – and no new villages were established following the Anglo-Norman influx. Settlement on the Tywi floodplain has always been minimal, with isolated farms on raised "islands" within the flood prone areas. Large estates developed during the 17th to 19th centuries, including Dinefwr and Abermarlais, and this unique group of planned parks and gardens provide perhaps the most outstanding historical legacy of the valley.

From left: Neolithic chambered tomb near Bethlehem, Carn Goch Iron Age hill fort, early morning mists below Dryslwyn castle, Dinefwr Park.



Deall dyffryn sy'n newid

Afon Tywi yw un o afonydd mwyaf dynamig Cymru ac mae archwilio'r gwaddodion a gedwir ar lawr ei dyffryn yn datgelu hanes o erydu, dyddodi a gorlifo yn dyddio'n ôl i ddiwedd y rhewlifant diwethaf. Mae'r archwilio hwn ar astudio gwaddodion gorlifdir yn dangos sut mae newid hinsawdd a gorchudd tir wedi effeithio ar ymddygiad yr afon yn ystod y milenia diwethaf.

Wrth i Afon Tywi symud ar draws ei gorlifdir mae gwaddodion yn cael eu dyddodi gan y dŵr araf ei lif. Mae cyfnodau byrrach o lif cyflymach

yn achosi erydu, sy'n torri i waelod y dyffryn mewn proses a elwir yn "dyrchu". Mae'r broses hon wedi ffurfio grisiau o derasau. Mae'n debyg i'r hynaf o'r rhain ffurfio mwy na 12000 o flynyddoedd yn ôl a'r diweddraf yn y 200 mlynedd diwethaf. Mae union oed terasau uchaf a hyna'r afon yn anhysbys, ond mae dyddio radiocarbon ar ddeunydd organig a gafwyd mewn gwaddodion yn hen sianelau'r afon 1.5 metr uwchben gwely'r afon heddiw yn arwyddo bod y cyfnod mawr diwethaf o dyrchu'r afon rhwng tua 4700 a 3850 o flynyddoedd yn ôl, rhwng yr Oes Neolithig ddiweddar a'r Oes Efydd gynnar.

Yn ystod y tri mileniwm a hanner wedi hynny roedd yr afon yn erydu ac yn dyddodi gwaddodion ar lawr ei dyffryn tan ychydig cyn y 18fed ganrif pan dorwyd hi at ei lefel bresennol. Mae mapiau hanesyddol o'r 19eg ganrif a lluniau mwy diweddar o'r awyr yn caniatáu i symudiadau'r afon, erydu'r glannau a'r dyddodi graean yn ystod y 150 mlynedd diwethaf gael eu cofnodi'n eithaf manwl.

Roedd newidiadau o bwys yn ymddygiad yr afon yn dylanwadu ar weithgaredd dynion ac ar batrymau anheddu yn Nyffryn Tywi. Er bod rhai safleoedd archaeolegol wedi eu colli wrth i'r afon symud ar draws y dyffryn, mae rhai o'r terasau hynaf yn diogelu olion byw yn yr Oes Efydd.


Understanding a changing valley

The river Tywi is one of the most dynamic rivers in Wales and investigation of the sediments stored in its valley floor has revealed a history of erosion, deposition and flooding dating back to the end of the last glaciation. This exploration into the study of floodplain sediments shows how climate and land cover change have affected river behaviour during past millennia.

As the river Tywi moves across its floodplain sediments are deposited by the slow-flowing water. Shorter episodes of faster flow cause erosion, cutting into the valley bottom in a process known as "down-cutting". This process has formed a staircase of terraces. The oldest of these probably formed more than 12000 years ago and the most recent in the last 200 years. The exact ages of the highest and oldest river terraces are unknown, but radiocarbon dating of organic material found in sediments within old river channels 1.5metres above the modern river bed indicates that the last major episode of river down-cutting occurred about 4700 and 3850 years ago during the late Neolithic to early Bronze Age.

In the following three and a half millennia the river eroded and deposited sediments on its valley floor until shortly before the 18th century when it cut down to its present level. Historic maps from the 19th century and more recent aerial photographs allow river movement, bank erosion and gravel deposition over the past 150 years to be documented in some detail.

Major changes in river behaviour influenced human activity and settlement patterns in the Tywi valley. Although some archaeological sites have been lost when the river moved across the valley some of the older terraces preserve remains of Bronze Age occupation.



Tyllu craidd ar waith yng Nghwt Henri (chwith) ac Abermarlais (y dde).

Coring being undertaken at Cwrt Henri (left) and Abermarlais (right).



Patrymau yn dangos llwybr Afon Tywi yn newid ble mae'n cwrdd ag Afonydd Sawdde a Brân.

Patterns showing the changing course of the Tywi where it meets the Rivers Sawdde and Brân.

Drwy garedigwydd Miss B. Evans / Courtesy of Miss B. Evans



Hen lun o flaen siop yn Llandeilo.

Old photograph of Llandeilo shop front.



Mae cyfoeth o wybodaeth eisoes ar gael am yr hanes a'r dirwedd.

A wealth of information already exists about the history and landscape.

Adolygu'r dystiolaeth

Y cam cyntaf wrth archwilio'r gorffennol yw casglu'r dystiolaeth ynghyd am y cofnodion a'r ffynonellau sydd ar gael. Drwy lwc mae cyfoeth o wybodaeth eisoes yn bod am hanes a thirwedd Dyffryn Tywi. Mae'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) sydd ym meddiant Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn cynnwys mapiau hanesyddol, lluniau o'r awyr ac adroddiadau cloddiadau – a'r cyfan yn cyfrannu at adeiladu darlun o'r gorffennol yn Nyffryn Tywi. Gan weithio ochr yn ochr ag archaeolegwyr proffesiynol, mae gwirfoddolwyr wedi dod â gwybodaeth at ei gilydd a'i rhoi mewn fformat digidol hawdd cael gafael arno. Mae'n cynnwys y canlyniadau o'r cloddiadau a fu cyn gosod y bibell nwy yn 2007, asesiad o barediroedd a mapio patrymau caeau. Mae storffeydd eraill i ddogfennau hanesyddol sydd wedi'u harchwilio yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn Aberystwyth, a Swyddfa Gofnodion Sir Gaerfyrddin. Gyda'r holl dystiolaeth oedd ar gael wedi ei chasglu, cafodd mapiau thematig o ardal yr astudiaeth eu creu i gynorthwyo i ddeall sut datblygodd y dyffryn dros amser.

Reviewing the evidence

A first step in an exploration into the past is to gather together available records and sources. Luckily a wealth of information already exists about the history and landscape of the Tywi valley. The Historic Environment Record (HER) held by the Dyfed Archaeological Trust includes historic maps, aerial photographs and excavation reports – which all contribute to build up a picture of the past in the Tywi valley. Working alongside professional archaeologists, volunteers have brought together information and put it into a readily accessible digital format. This includes the results from excavations conducted in advance of the 2007 gas pipeline, an assessment of parklands and the mapping of field patterns. Other repositories of historic documents which have been explored include the National Library of Wales and National Monuments Record at Aberystwyth, and the Carmarthenshire Records Office. With all the available evidence gathered, themed maps of the study area were created to help understand the development of the valley over time.



SUT I ADOLYGU'R DYSTIOLAETH

Mae nifer fawr o gofnodion a ffynonellau mewn bodolaeth. Dyma rai o'r ffyrdd y gallwch fynd ati i archwilio'r gorffennol...

- Mae gan y **Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH)** wybodaeth am bob safle archaeolegol hysbys o dystiolaeth am enwau lleoedd a manau darganfod i henebion hynafol ac adeiladau hanesyddol. Mae'r cofnod hwn yn cael ei ddiweddar'u'n gyson ac mae bellach ar gael i'r cyhoedd drwy'r wefan www.archwilio.org.uk.
- Mae gan **Archifau Lleol a Chenedlaethol** gofnodion helaeth, gan gynnwys ffurflenni cyfrifiad, cofrestrau etholwyr a phapurau newydd lleol. Mae swyddfeydd cofnodion ym mhob sir, yn ogystal ag amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Adnodd gwerthfawr yng Nghymru yw'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth sy'n gartref i gasgliad anferth o adnoddau hanesyddol o fapiau i lawysgrifau, paentiadau a lluniau (www.llgc.org.uk). Mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, hefyd yn Aberystwyth, yn archif genedlaethol o luniau, mapiau, lluniadau a gwybodaeth arall am amgylchedd hanesyddol Cymru (www.rcahmw.gov.uk).
- Mae **mapiau hanesyddol** yn basbort cyfareddol i'n gorffennol. Mae ffynonellau fel mapiau ystadau o'r 18fed a'r 19eg ganrif, mapiau'r degwm o ganol y 19eg ganrif a mapiau'r Arolwg Ordnans o ddiwedd y 19eg ganrif i ddechrau'r 20fed ganrif fel arfer ar gael yn yr archifdy lleol neu swyddfa cofnodion y sir a'r CAH.

Darn o fap o blasty a pharc Abermarlais.

Extract of Abermarlais mansion and park map.

HOW TO REVIEW THE EVIDENCE

A great number of records and sources exist. Here are some of the ways that you can go about exploring the past...

- **The Historic Environment Record (HER)** holds information on all known archaeological sites from place-name evidence and findspots to ancient monuments and historical buildings. This record is constantly being updated and is now publicly available through the website www.archwilio.org.uk.
- **Local and national archives** hold extensive records, including census returns, electoral registers and local newspapers. There are record offices in each county, as well as museums and libraries. A valuable resource in Wales is the National Library of Wales in Aberystwyth that houses a huge collection of historical sources from books and maps to manuscripts, paintings and photographs (www.llgc.org.uk). The National Monument Record of Wales, also held in Aberystwyth, is a national archive of photographs, maps, drawings and other information on the historic environment of Wales (www.rcahmw.gov.uk).
- **Historical mapping** is a fascinating passport into our past. Sources such as 18th and 19th century estate maps, mid 19th century tithe maps and late 19th to early 20th century Ordnance Survey maps are usually held at the local archives or county records office and the HER.

Stori Matt

Ers i mi wirfoddoli gyda'r Ymddiriedolaeth dw i wedi cwrrd ag ystod o bobl o bob oed ac wedi dod yn gyfeillgar â nhw. Gwybch yn cael cyfnewid syniadau a gwirandd ar unigolion sy'n gweld safle neu weithgaredd o bersbectif gwahanol i mi fy hun. Dw i hefyd wedi cwrrd â mwy o bobl o'r gymuned nad wyf yn credu y byddwn wedi cael cyffe i gwrrd â nhw fel arall.

Matt's tale

Since volunteering with the Trust I have met and befriended a range of people of all ages. It's great to listen to, and swap ideas with, individuals who see a site or activity from a different perspective from myself. I have also met more people from the community who I don't think I would've had a chance to meet otherwise.



Llun o Wasanaethau Archifau Sir Gaerfyrddin / Image provided by Carmarthenshire Archive Service



Parcdiroedd Dyffryn Tywi

Mae Dyffryn Tywi yn cael ei alw yn “Ardd Cymru” oherwydd y grŵp unigryw o barciau a gerddi cynlluniedig sydd ynddo. Mae parcdiroedd yn ardaloedd o dirwedd wedi'u dylunio, wedi eu gwella'n artiffisial i greu golygfeydd a fistâu dymunol. Mae gan Ddyffryn Tywi rai o'r parciau tirwedd pwysicaf yng Nghymru gyda Dinefwr, Gelli Aur ac Aberglasne. Beth bynnag mae gwaith ymchwil drwy *Chwilota'r Tywi!* wedi dangos bod parciau a gerddi hanesyddol i'w cael yn helaeth ar un adeg drwy'r dyffryn a bod eu hetiffediaeth yn dal yn weladwy yn y dirwedd heddiw.

Chwith: Un o'r darluniau cynharaf o Ddyffryn Tywi, o Fryn Grongar at Ddinefwr. Engraffiad gan Wenceslaus Hollar yn dyddio o 1657, ar glawr llyfr y Parchedig Jeremy Taylor, *Golden Grove - The Guide of Infant-Devotion*. Ar y dde: Map o'r ystad yn dangos parcdir yn Gelli Aur.

Parklands of the Tywi valley

The Tywi valley has been labelled the “Garden of Wales” after its unique group of planned parks and gardens. Parklands are areas of designed landscape, artificially enhanced to create pleasing views and vistas. The Tywi valley boasts some of the most important landscape parks in Wales with Dinefwr, Golden Grove and Aberglasney. However research through *Exploration Tywi!* has shown that historic parks and gardens were once widespread throughout the valley and that their legacy is still visible in the landscape today.

Left: One of the earliest depictions of the Tywi valley, from Grongar Hill towards Dinefwr. An engraving by Wenceslaus Hollar dating from 1657, on the cover of Rev. Jeremy Taylor's *Golden Grove - The Guide of Infant-Devotion*. **Right:** An estate map showing parkland at Golden Grove.

GELLI AUR

Un o'r ystadau sy'n agored i'r cyhoedd yw'r Gelli Aur sydd ar un o lethrau Dyffryn Tywi sy'n wynebu'r gogledd, ryw 3km i'r gorllewin o Llandeilo. Tŷ o Oes Elisabeth oedd yr un gwreiddiol ond fe'i ddinistriwyd gan dân ym 1792 a chafodd yr un a godwyd i gymryd ei le ei chwalu yn gynnar yn y 19eg ganrif pan adeiladwyd plasty newydd ar safle mwy dyrchafedig. Mae terasau a gerddi ffurfiol yn amgylchynu'r plasty presennol, sydd â gardd goed a pharc ceirw eithriadol.

Drwy wneud yr asesiad hwn ar barcdiroedd ar hyd a lled y dyffryn roedd yn bosibl amlygu'r ardaloedd ble mae cymeriad pendant y parcdir wedi ei golli ac mae ffyrdd wedi eu nodi i allu eu hadfer i'w hen ogoniant.



GOLDEN GROVE

One of the estates open to the public is Gelli Aur, or Golden Grove, set on the north facing bluff of the Tywi valley, some 3km west of Llandeilo. The original Elizabethan house was destroyed by fire in 1729 and its replacement was demolished in the early 19th century when a new mansion was built on a more elevated position. Formal terraces and gardens surround the present mansion, with an outstanding arboretum and a deer park. By doing this assessment of parklands through the valley it has been possible to highlight areas where the distinctive parkland character has been lost and ways have been identified in which they could be restored to their former glory.

Teithio drwy amser

Dyffryn Tywi oedd y prif lwybr hanesyddol i orllewin Cymru ac adeiladwyd y ffordd Rufeinig o Lanymddyfri i Gaerfyrddin wrth droed llethrau'r dyffryn ar ochr ogleddol yr afon.

Er nad yw'n dilyn union linell y ffordd Rufeinig, mae'r llwybr wedi parhau yn dramwyfa bwysig. Ym 1763 anfonwyd deiseb i Dŷ'r Cyffredin i ddod â mesur i drin y "Brif Ffordd", yr A40 heddiw, drwy Sir Gaerfyrddin. Roedd y Ddeddf a ddaeth yn sgîl hynny yn sefydlu'r awdurdod tollbyrth cyntaf yn Ne Cymru. Y bwriad gwreiddiol oedd gwella'r ffordd oedd yn bod ond roedd llawer o'r ymddiriedolaethau yn codi tollau eithafol. Arweiniodd y baich ariannol ychwanegol hwn ar

gymunedau amaethyddol tlawd at wrthryfel Merched Beca – (dynion wedi gwisgo lan mewn dillad merched fel na fyddai'r awdurdodau yn eu hadnabod) – a oedd yn dinistrio'r tollbyrth.

Ymysg eu targedau lu roedd tollborth bychan i'r gogledd orllewin o Llandeilo. Dinistriwyd hwn ym 1843, pan oedd mintai o'r Dragwŷns a oedd wedi'u hanfon i warchod y tollbyrth lleol, yn eistedd yn ddarwybod yn eu llety yn y Cawdor Arms a Gwesty'r George.

Sefydlwyd cyswllt cyfathrebu pellach ar hyd y dyffryn pan agorwyd prif reilffordd Gorllewin Cymru yr LNWR fel "Llinell Dyffryn Tywi" gan Gwmni Rheilffordd a Dociau Llanelli ym 1858.

Travelling through time

The Tywi valley was the major historic route into west Wales and the Roman road from Llandovery to Carmarthen was constructed along the foot of the valley slopes on the north side of the Tywi.

Although not following the exact line of the Roman road, this route has remained an important thoroughfare. In 1763 a petition was sent to the House of Commons to bring a Bill to repair the "High Road", the modern A40, through Carmarthenshire. The subsequent Act established the first turnpike authority to be set up in South Wales. The original intention was to improve the existing roads but many trusts charged extortionate tolls. This additional financial burden imposed on poor farming communities led to the uprising by the Merched Beca – Rebecca's Daughters (men disguised in women's clothes so as not to be recognised by the authorities) – to destroy the tollgates.

Among their many targets was a small tollhouse to the northwest of Llandeilo. It was destroyed in 1843, as a detachment of Dragoons, sent to protect the local tollgates, sat oblivious in their billets in the Cawdor Arms and George Hotel.

A further communication link was established along the length of the valley when the LNWR main West Wales railway opened as the 'Vale of Towy Line', by the Llanelli Railway and Dock Company, in 1858.



Ysgubor o'r 19eg ganrif, Capel Bethlehem, Melin Glan Geidrych, corlan, Carreg Gwynfor Evans a rhagotwg oer.

19th century barn, Capel Bethlehem, Glan Geidrych Mill, sheepfold, Gwynfor Evans Stone and a chilly outlook.



TAITH GERDDED CELIA

Heb ddim Tardis neu De Lorean wedi'i drin yn arbennig, y ffordd fwyaf effeithiol i deithio drwy amser yw ar droed... Mae Dyffryn Tywi yn gyfoethog o safleoedd hanesyddol ac mae llawer o emau cudd yn aros i gael eu darganfod. Mae Celia Parsons yn cymryd rhan yn y prosiect a dyma hi'n eich tywys ar daith gerdded o bentref Bethlehem i'r Garn Goch, gan fynd â chi'n ôl mewn amser i gynhanes.

CELIA'S WALK

In the absence of a Tardis or souped-up De Lorean, the most effective way to travel through time is on foot... The Tywi is rich in historical sites and many hidden gems await discovery. Project participant Celia Parsons guides you on a walk from Bethlehem village to Carn Goch, taking you back in time to prehistory.



AC A FENDITHIASANT REBECA...

Credir i gyfeiriad Beiblaidd (Genesis 24:60) arwain at ffenomenon eithriadol – dynion wedi gwisgo lan fel merched yn gollwng eu dicter a'u rhwystredigaeth ar dollbyrth, symbolau mwyaf cyffyrddadwy trethi uchel. Cafwyd yr ymosodiadau rhwng 1839 a 1843, gyda'r protestiadau cyntaf yn Sir Gaerfyrddin.

"...ac etifedded dy had borth ei gaseion"

AND THEY BLESSED REBEKAH...

A biblical reference (Genesis 24:60) thought to have given rise to an extraordinary phenomenon – men dressed as women venting their anger and frustration on tollgates, the most tangible symbols of high taxes. The attacks occurred between 1839 and 1843, with the first protests in Carmarthenshire.

"...let thy seed possess the gate of those which hate us"

Stori Celia

Mae prosiect Chwilota'r Tywi wedi agor fy llygaid i'r amgylchedd o'm cwrpas. Mae gweithio ar gloddfeydd ac arolygon archaeolegol wedi datgelu straeon am hen ffyrdd o fym yn agosach at y tir – o dai y gallech ddyckmygu byw ynddynt, sy'n dyddio yn ôl i afaelion cynhanesyddol Garn Goch a phopeth rhwng y ddau gyfnod. Mae wedi dod â phobl at ei gilydd i gyfrannu agweddau gwahanol at y stori. Yn bersonol, mae wedi fy helpu i ddechrau dehongli fy nhŷ fy hun, ac wedi rhoi i mi barch newydd amdano.



Celia's tale


The Exploration Tywi project has opened my eyes to my surroundings. Working on archaeological digs and surveys has revealed stories of old ways of living closer to the land – from houses you could imagine living in, going back to the great prehistoric remains of Carn Goch and everything in-between. It has got people together to contribute different aspects of the story. On a personal note it has helped me start to interpret my own house and given me a new respect for it.

Casglu tystiolaeth newydd

Er mor oleuedig y gall ymchwil wrth ddesg fod, does dim yn cymharu â mynd ma's yna i weld pethau drosoch chi'ch hunan. Unwaith y bydd asesiadau wedi'u gwneud o'r fflonellau hanesyddol, y cam nesaf yw mentro i'r maes i archwilio'r tirweddau a'r nodweddion hanesyddol hyn a'u cofnodi. Mae gwrthrychau amrywiol fel gwrychoedd, cerrig beddau, adfeilion ac adeiladau sy'n sefyll yn bynciau diddorol i ymchwilio iddynt. Gall y wybodaeth hon ychwanegu at ein gwybodaeth gyffredinol am yr ardal...

Gathering new evidence

As enlightening as desk-based research can be, nothing compares with getting out there to see things for yourself. Once assessments of the historic sources have been made the next stage is venturing out into the field to explore and record these historic landscapes and features. Diverse subjects such as hedgerows, gravestones, ruins and standing buildings are all interesting subjects for investigation. This information can then be added to our overall knowledge of the area.



Cofnodi cloddiau

Mae patrymau'r caeau a'r cloddiau yn rhoi cymeriad pendant i Ddyffryn Tywi, ond pam maent yn amrywio gymaint ar draws y dirwedd? Ac a allwn ddysgu pa mor hen ydynt wrth edrych ar yr adeiladwaith a'r rhywogaethau sy'n tyfu ynddynt? Dyma dim ond dau o'r cwestiynau a oedd yn cael eu holi gan yr arolwg cofnodi cloddiau. Ymysg y nodweddion i gadw llygad amdanynt oedd coed a llwyni ffrwythau neu rai addurnol, a allai nodi gardd neu dir caeedig i fwthyn. Efallai y bydd y gwaith adeiladu ar gloddiau a ffosydd yn cynnig cliwiau am eu dyddiad a'u diben. Gellir dod o hyd i gliwiau eraill o ran dyddio cloddiau mewn enwau lleoedd ar fapiau'r degwm, nifer y rhywogaethau sydd ynddynt a'u perthynas â nodweddion eraill ar y dirwedd.

Mae pobl a gymerai ran yn *Chwilota'r Tywi!* wedi cynnal arolwg o'r cloddiau o amgylch Felindre ar bwys Llangadog. Yno mae'r caeau sribedi agored nodweddiadol o'r Oesoedd Canol wedi cael eu cadw ble mae'r sribedi yn cael eu cyfuno a'u hamgáu gan ffin i gadw'r da byw mewn.

Hedgerow recording

Field patterns and hedgerows give the Tywi valley a distinct character, but why do they vary so much across the landscape? And can we discover what age they are by looking at the structure and species growing in them? These are just two of the questions that were addressed by the hedgerow recording survey.

Features to look out for include fruit or ornamental trees and shrubs, which might indicate a garden or cottage enclosure. The construction of banks and ditches and repeated planting patterns of hedgerow species may provide clues to its date and purpose. Other clues to dating hedgerows can be found in field names on tithe maps, the number of species they contain and its relationship with other features in the landscape.

Exploration Tywi! participants have carried out surveys of the hedgerows around Felindre near Llangadog. Here the characteristic open Medieval strip fields have been preserved when the strips became amalgamated and enclosed by a stock proof boundary.

Rhai a gymerai ran yn troi'n dditectifs tai.

Participants become house detectives.



Stori Tony

Am dros 30 mlynedd dw i wedi gwylio archaeoleg ar y teledu ac ymchwilio i hanes fy nheulu. Er does dim gwreiddiau gyda fi yn yr ardal roedd *Chwilota'r Tywi!* yn cynnig cyfle i fi fynd ymhellach gyda'r ddau ddiddordeb, i ddechrau gyda'r arolwg ym mynwent eglwys Llandeilo, ac yna gyda ychydig o archaeoleg ymarferol. Mae awyr iach, cwmni da a'r cyfle i ddysgu rhai o'r technegau a ddefnyddir yn ogystal â pheth o hanes yr ardal wedi rhoi pleser mawr i fi ac wedi dangos meysydd i fi eu harchwilio fy hun.

Tony's tale

For over 30 years I have watched television archaeology and researched my family history. Although I have no roots in the area *Exploration Tywi!* offered me an opportunity to further both interests, initially through the graveyard survey at Llandeilo church, and then some "hands on" archaeology. Fresh air, good company and the chance to learn some of the techniques involved as well as some of the history of the area has given me great pleasure and pointed out areas for my own exploration.



BETH SYDD MEWN CLAWDD?

Mae cloddiau wedi eu cynllunio i amgáu tir, gan roi ffiniau i gadw da byw mewn neu ffiniau tiriogaeth. Mae ffurf y ffiniau hyn yn rhoi cliwiau i ni ynghylch eu dechreuadau; sut, pam a phryd y cawsant eu creu. Mae amgaead darn yn narn fel arfer yn arwain at ffurfiau afreolaidd ar gaeau ond mae amgaead ar raddfa eang, fel yr amgaead seneddol yn yr 17eg a'r 18fed ganrif yn aml yn cael ei nodweddu gan ffiniau syth a chaeau sgwariog. Mae ffiniau caeau o'r Oes Efydd yn aml yn cael eu hadnabod drwy furiau cerrig isel ac roedd caeau'r Rhufeiniaid yn cael eu gosod mewn unedau mesur rheolaidd iawn (Canwriadu). Roedd caeau'r Oesoedd Canol yn agored ac yn cael eu hamaethu gan deuluoedd unigol, ond roedd amgaead wedi hynny yn aml yn unol a systematig.



Uchod: Edrych dros y gwrych – Cofnodi gwrychoedd yn Felindre. Chwith: Caeau sribedi o'r Oesoedd Canol yn Felindre. Y dde: Mwsglys – rhywogaeth a all fod yn arwydd o goetir hynafol. Isod: Hen goesynnau wedi'u plygu mewn clawdd yn dangos y cyfeiriad y cafodd ei "osod".



Top: Looking over the hedge - hedgerow recording at Felindre. Far left: Medieval strip fields at Felindre. Above: Moschatel – a species that may indicate ancient woodland. Left: Old bent stems in a hedge indicate the direction it was "laid".

WHAT'S IN A HEDGE?

Hedges are designed to enclose land, providing stock proof boundaries or territorial boundaries. The form of these boundaries provide clues to their origins; how, why and when they were created. Piecemeal enclosure usually results in irregular field shapes whereas wholesale enclosure, such as the parliamentary enclosure of the 17th-18th century is often characterised by straight boundaries and squared fields. Bronze Age field boundaries are often recognised as low stone walls and Roman fields were laid out in very regular units of measurement (Centuriation). Medieval fields were open and farmed in strips by individual families, while post-medieval enclosure was often unified and systematic.



SUT I GAEL HELFA CLODDIAU

Gall cloddiau a ffiniau caeau ddweud llawer iawn wrthym am y dirwedd a sut mae wedi esblygu dros amser. Os ydych am astudio cloddiau sicrhewch yn gyntaf fod gyda chi ganiatâd perchennog y tir a llwythwch i lawr ein taflenni cofnodi a'n nodiadau canllaw sydd ar gael ar www.dyfedarchaeology.org.uk

Cliwiau i'w gweld

- Goed ffrwythau fel afalau, eirin neu eirin hir neu gall rhywogaethau addurnol fel coed prifet, bocs neu dresi aur arwyddo gardd neu amgaead ar gyfer bwthyn.
- Gall rhywogaethau neilltuol sy'n cael eu hailadrodd yn y clawdd fod yn arwydd o batrwm plannu.
- A yw ffyrdd/rheilffyrdd yn ymddangos eu bod yn 'torri ar draws' ffiniau caeau? Gall dyddiadau ffyrdd tyrpeg a rheilffyrdd gynnig cronoleg.
- Gall enwau caeau ar fap y degwm ddangos y defnydd ar dir a chynnig cliwiau eraill am ddyddiad patrwm y cae.
- A yw ffiniau caeau eraill yn parchu neu'n dod i ben ar ffin? Gall hyn fod yn arwydd o ffin o gryn arwyddocâd a hynafiaeth.
- A oes coed safonol yno? Coed yw'r rhain a adewir i dyfu'n naturiol am 80 – 100 mlynedd tan y gellir eu cynaeafu a'u defnyddio ar gyfer pren. Roedd pren yn werthfawr dros ben. Cyn y 19eg ganrif efallai y byddent wedi eu tocio – eu torri ar uchder o tua 2-3 metr. Gall coed wedi'u tocio roi cnwd porthiant pwysig – 'gwair deiliog'.
- Beth yw adeiladwaith y ffin gorfforol (h.y. clawdd neu ffos) a sut mae'n cymharu â'r rhai cyfagos?

Peidiwch ag anghofio rhoi copi o'ch cofnodion yn y CAH lleol, gan y byddant yn ychwanegu at y corff o wybodaeth ar gyfer eich ardal leol.

HOW TO HAVE A HEDGEROW HUNT

Hedgerows and field boundaries can tell us a great deal about the landscape and how it has evolved over time. If you would like to study hedgerows first check that you have the landowner's permission and download our recording sheets and guidance notes available at www.dyfedarchaeology.org.uk

Clues to look for

- Fruiting trees such as apple, plum or damson or ornamental varieties such as privet, box or laburnum may indicate a garden or enclosure for a cottage.
- Particular species may repeat in the hedgerow indicating a planting pattern.
- Do roads/railways appear to 'cut across' field boundaries? Dates of turnpike roads and railways can provide a chronology.
- Field names on the Tithe map may indicate land use and offer clues to the date of the field pattern.
- Do other field boundaries respect or butt up to a boundary? This may indicate a boundary of some significance and antiquity.
- Are standard trees present? Standards are trees left to grow naturally for 80 – 100 years when they could be harvested and used for timber. Timber was a very valuable commodity. Prior to the 19th century they could have been pollarded – cut at a height of around 2-3 metres. Pollards might provide an important fodder crop – 'leafy hay'.
- What is the construction of the physical boundary (i.e. a bank or ditch) and how does it compare to those adjacent?

Don't forget to deposit your records at the local HER, as these will add to the body of knowledge for your local area.



SUT I WNEUD AROLWG O FYNWENT

Mae mynwentydd yn cynnig llwybr hygyrch dros ben i'r gorffennol; anaml y bydd ein hynafiaid yn llefaru mor uniongyrchol â phan wnânt drwy eu cofebau i'r meirw. Os byddwch am astudio'ch mynwent leol, holwch am ganiatâd perchennog y tir yn gyntaf a gweld a oes unrhyw gofnodion wedi'u gwneud yn barod.

- Lluniwch gynllun bras o'r fynwent a phlotio'n fras safleoedd y cerrig beddau.
- Llwythwch i lawr daflenni cofnodi a nodiadau canllaw oddi ar www.dyfedarchaeology.org.uk
- Rhwch rif unigryw ar bob cofeb, gan groesgyfeirio at eich cynllun.
- Os gallwch, cymerwch lun neu gwnewch fraslun o bob cofeb i gydfynd â'ch taflenni cofnodi ar ôl eu llenwi.

Pan fyddwch wedi cwblhau'ch arolwg, sicrhewch eich bod yn gadael copi o'ch cofnodion gyda'r eglwys neu'r capel, eich swyddfa gofnodion leol neu gyda'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Lleol.



HOW TO SURVEY A GRAVEYARD

Graveyards provide a readily accessible route into the past; rarely do our ancestors speak so directly than through their memorials to the dead.

If you would like to study your local graveyard or cemetery, first check with the landowner for permission and to establish if any records have been made already.

- Draw a sketch plan of the graveyard and plot roughly the positions of the gravestones.
- Download recording sheets and guidance notes from www.dyfedarchaeology.org.uk
- Number each memorial with a unique number, cross-referencing with your plan.
- If you can, take a photograph or make a sketch of each memorial to accompany your completed record sheets.

When you have carried out your survey, make sure you deposit a copy of your records with the church or chapel, your local records office or at the local HER.



Arolwg mynwent

Mae gan y meirw straeon i'w dweud wrthym o hyd. Cafodd cerrig beddau mewn un rhan o fynwent eglwys Llandeilo eu cofnodi gan Sefydliad y Merched yn ystod y 1980au. Beth bynnag roedd rhan ogleddol y fynwent yn dal heb ei chyffwrdd.

Ac felly y bu i fyddin o wirfoddolwyr lleol brwd fentro drwy'r mieri a'r danadl poethion i graffu'n ofalus ar bob carreg fedd unigol a chofnodi'r manylion oedd arnynt. Mae chwedlau rhyfeddol wedi cael eu dweud ac mae claddfeydd wedi eu harchwilio i ddatgelu hanesion teuluoedd lleol. Mae ôl y tywydd yn gwaethygu ar rai o'r cerrig beddau ac felly bydd ein harolwg yn gofnod gwerthfawr o'r beddagraffiadau hyn cyn iddynt gael eu colli'n llwyr.



Churchyard survey

The dead still have tales to tell. Gravestones in one part of Llandeilo Churchyard were recorded by the Women's Institute during the 1980s. However the northern section of the graveyard remained untouched.

So it was that an army of enthusiastic local volunteers braved the brambles and nettles to carefully scrutinize each of the individual gravestones and record their details. Fascinating tales have been told and burial plots have been explored to reveal local family histories. Some of the gravestones are weathering badly so our survey will be a valuable record of the epitaphs before they are lost completely.



"To the memory of Samuel Enderby, Captain late H M 16th Lancers. Died Feb. 5th 1873, aged 84"

BYWYD LLAI CYFFREDIN

Arysgrif i godi chwilfrydedd. Pwy oedd hwn? Roedd bywyd diddorol dros ben ar fin cael ei ddatgelu. Yn 16 oed, roedd Samuel ym mrwydr Trafalgar, yn ganol-longwr ar fwrdd The Defence. Fel Ffonwaywr ymladdodd yn Waterloo cyn teithio gyda'i gatrawd i India.

Roedd ei dad-cu, Samuel Enderby arall, wedi sefydlu busnes hela morfilod ym 1773 ac roedd y Samuel Enderby y daeth Capten Ahab ar ei thraws yn Moby Dick yn llong go iawn yng nghwmni Enderby. Mae nai Samuel, Charles Gordon, yn fwy adnabyddus fel Gordon o Khartoum.

Priododd Samuel dair gwaith, a'r tro olaf – pan oedd yn 79 oed – gydag Emma Jemima Cleaver a oedd yn 26 oed, yr oedd ei thad yn baentiwr a gwydrwr yn Stryd Rhosmaen, Llandeilo. Ym 1873, dim ond pedwar mis ar ôl marw Samuel, roedd ei weddw wedi ailbriodi erbyn diwedd Mehefin.




A LIFE LESS ORDINARY

An intriguing inscription. Who was he? A most interesting life was soon to be exposed.

At 16, Samuel was at Trafalgar, as midshipman onboard The Defence. As a Lancer he fought at Waterloo before travelling with his regiment to India.

His grandfather, another Samuel Enderby, established a whaling business in 1773 and the Samuel Enderby encountered by Captain Ahab in Moby Dick was a real ship in Enderby's company. Samuel's nephew, Charles Gordon, is better known as Gordon of Khartoum.

Samuel was married three times, the last - when he was 79 - to the 26 year old Emma Jemima Cleaver, whose father was a painter and glazier in Rhosmaen Street, Llandeilo. In 1873, only four months after Samuel's death, his widow was remarried.




Braslun gan Mike Ings / Sketch by Mike Ings

Ditectifs tai

Pa mor aml y byddwch yn edrych ar yr adeiladau o'ch amgylch? Hynny yw, edrych o ddifrif? Cânt eu hanwybyddu mor aml, yn ddim ond cefnlen i'n bywydau prysur, yn gyfarwydd, yn gyson ond prin yn cael ail edrychiad. Ond cymerwch eiliad i gael golwg fanylach ac efallai y cewch eich synnu. Uwchben wyneb amhersonol y siop gall fod adeilad o gymeriad. Bydd manylion pensaernïol diddorol yn dod yn amlwg i'r llygad chwilfrydig. Gellir gweld newid o ran defnydd, arddull a hynt a helynt.

Gall adeiladau gynnig cyfoeth o wybodaeth am eu bod yn ddrach i'r gymdeithas a'u cododd ac a'u defnyddiodd. Maent yn dweud wrthym am y bobl oedd yn byw, gweithio ac addoli ynddynt – am eu blaenoriaethau a'u dyheadau.

Casglwyd cofnodion gwerthfawr gan ein ditectifs tai wrth iddynt fynd drwy'r strydoedd yn nodi'r manylion am adeiladau hen a newydd, fel math o gyfrifiad adeiladau.



Yr hen ysgoldy yn Llandeilo a gofnodwyd yn ystod yr arolwg.

The old schoolhouse in Llandeilo recorded during the survey.

Stori Nicola

Cefais fod cymryd rhan yn yr arolwg adeiladau yn bleser pur. Gwnaeth i fi edrych yn fanylach ar yr adeiladau yn Llandeilo, a sylweddolais gymaint o amrywiaeth o oedranau ac arddulliau sydd yna. Cymerais ran mewn sawl cloddiaid hefyd, a oedd yn gyffrous am nad oeddwn wedi gwneud hynny o'r blaen. Roedd yn gyfle gwych i dreulio'r diwrnod mewn cefn gwlad hardd yn ymchwilio i hanes gyda phobl eraill oedd â diddordeb, ac i ddysgu rhai sgiliau newydd.



Nicola's tale

I found taking part in the building survey thoroughly enjoyable. It made me look more closely at the buildings in Llandeilo, and I realised what an interesting variety of ages and styles there are. I also participated in several digs, which was exciting as I'd never done that before. It was a wonderful opportunity to spend the day in beautiful countryside investigating history with other interested people, and to learn some new skills.



Roedd London House yn Stryd Rhosmaen, Llandeilo, ym mherchnogaeth John Stephens erbyn diwedd y 19eg ganrif a dywedodd ei wyres, Miss Aileen Stephens, wrthym am ei hanes. Gwerthai'r siop bopeth bron "roedden nhw'n arfer dweud o'ch geni tan ar ôl i chi farw am eu bod nhw'n ymgymerwyr hefyd". Codwyd y swyddfa bost wreiddiol, gyda briciau coch a melyn, gan John Stephens ym 1897. Becws yw erbyn hyn, ac mae'r swyddfa bost wedi symud i ran o London House ochr yn ochr â Heavenly Chocolates.



London House in Rhosmaen Street, Llandeilo, was owned by John Stephens at the end of the 19th century and his granddaughter, Miss Aileen Stephens told us of its history. This shop sold pretty much everything "they used to say from birth to after death because they were undertakers as well". The original post office, with red and yellow bricks, was built by John Stephens in 1897. It is now a bakery, while the post office has moved into part of London House alongside Heavenly Chocolates.

House detectives

How often do you look at the buildings around you? That is, really look? So often they are ignored, a backdrop to our busy lives, familiar, constant and rarely given a second glance. But take a moment for a closer look and you might be surprised. Above the impersonal shop frontage may be a building of character, interesting architectural details will reveal themselves to the enquiring eye, changes in use, style and fortune may be detected.

Buildings can provide a wealth of information as they hold up a mirror to the society that built and used them. They tell us about the people who lived, worked and worshipped in them - their priorities and aspirations.

Valuable records were collected by our house detectives as they took to the streets to note down details of buildings old and new, like a structural census.



SUT I FOD YN DDITECTIF TAI

Dim ond llyfr nodiadau a phensil sydd eisus i ddechrau, er bod camera'n ddefnyddiol os oes gyda chi un. Dechreuwch drwy edrych ar y lle rydych chi'n byw ynddo – beth allwch chi ei ganfod am sut codwyd ef yn y lle cyntaf ac a ydyw wedi newid gydag amser? Cofiwch ofyn am ganiatâd perchennog y tir neu'r tŷ os byddwch yn mynd ar eiddo preifat. Llwythwch i lawr ein taflenni cofnodi a'n nodiadau canllaw sydd ar gael ar www.dyfedarchaeology.org.uk

- Deunyddiau adeiladu – a allwch weld o beth mae wedi cael ei adeiladu? A yw'r deunyddiau yn lleol neu a ydynt wedi eu cludo o bell?
- A oes ganddo nodweddion tebyg i adeiladau eraill gerllaw?
- Gall edrych ar ffynonellau hanesyddol helpu i sefydlu ei oedran – a yw'n ymddangos ar argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnnans?
- A allwch ei adnabod ar ffurflenni'r cyfrifiad neu mewn cyfeirlyfr masnachwyr?
- Drwy wneud arolwg allanol cyflym ar nifer o adeiladau mewn ardal fechan byddwch yn dechrau cael teimlad ynghylch yr arddulliau a'r dulliau adeiladu gwahanol.


Peidiwch ag anghofio rhoi copi o'ch cofnodion yn y CAH lleol, gan y byddant yn ychwanegu at y corff o wybodaeth am eich ardal leol.

HOW TO BE A HOUSE DETECTIVE

Simply a notebook and pencil is all you need to start, though a camera is useful if you have one. Start by looking at the place where you live – what can you find out about how it was originally built and has it changed over time? Remember to ask for the landowner's, or householder's permission, if you go onto private property. Download our recording sheets and guidance notes available at www.dyfedarchaeology.org.uk

- Building materials – can you detect what it is constructed from? Are the materials local or have they been brought in from afar?
- Does it show characteristics similar to other buildings nearby?
- Looking at historic sources may help to establish its age – does it appear on the 1st edition Ordnance Survey map?
- Can you identify it on the census returns or in a trade directory?
- By carrying out a rapid external survey of a number of buildings in a small area you will get a feel for the different styles and construction methods.

Don't forget to deposit your records at the local HER, as these will add to the body of knowledge for your local area.





**Prosiect adfer:
Cynt ac wedyn.**

**Restoration
project: Before
and after.**

Cofnodi adeiladau

Roedd yr adeilad hwn o'r 19eg ganrif o'r golwg yng nghornel hen berllan, ar fferm ar bwys y Dryslwyn, wedi gweld dyddiau gwell. Er cael ei newid a'i drin bron y tu hwnt i gael ei adnabod, roedd yn dal ar ei draed ac achubwyd ar y cyfle drwy brosiect Tywi Afon yr Oesoedd i'w adfer i'w hen ogoniant.

Roedd llawer o'r nodweddion gwreiddiol wedi goroesi, yn cynnwys muriau clom neu bridd a chorneli crynion sy'n nodweddu'r rhanbarth. Awgryma ei leoliad yn y berllan a'i faint mai storfa afalau ydoedd. Arweiniodd arolwg archaeolegol at luniadau manwl, cofnod ysgrifenedig a lluniau o'r adeilad. Roedd y rhain yn cynnig gwell dealltwriaeth o sut codwyd ef ac roeddent felly o gymorth gyda'r gwaith adfer. Yn y gwaith hwnnw rhoddwyd to gwellt yn lle'r to haearn rhychiog, datgelwyd y llawr coblog ac ailosodwyd y muriau cerrig a chlom. Mae'r paent coch trawiadol yn eich atgoffa am ffermdy Kennixton, o Benrhyn Gŵyr yn wreiddiol ond bellach yn Sain Ffagan, y credid ei fod yn amddiffyn yn erbyn ysbrydion drwg.

Uchod, chwith: Rhan o'r cofnod archaeolegol a wnaed. Isod, chwith: Argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans.

Left, above: Part of the archaeological record made. Left, below: 1st edition Ordnance Survey map.

Building recording

This 19th century building tucked away in the corner of an historic orchard, on a farm near Dryslwyn, had seen better days. Although altered and repaired beyond almost all recognition, it still stood and the opportunity was taken, through the Tywi River through Time project, to restore it to its former glory.

Many original features survived including clom, or earth, walling and regionally distinctive rounded corners. Its location in the orchard and its size suggests that it was an apple store. An archaeological survey produced detailed drawings, a written record and photographs of the building. These provided a better understanding of how it was built and thereby helped with the restoration.

The restoration replaced the corrugated-iron roof with thatch, revealed the internal cobbled floor and reinstated the stone and clom walls. The eye-catching red paint is reminiscent of that on Kennixton farmhouse, originally from Gower and now in St Fagans, which was thought to protect against evil spirits.



Stori Ian

Aethom i'r Berllan roedd y storfa afalau ynddi. Yna cynorthwyodd y grŵp staff Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i gofnodi'r adeilad yn ei gyflwr presennol. Roedd hyn yn cynnwys mesur yr adeilad a thynnu lluniau â llaw ac â camera ohono. Roedd y diwrnod yn llwyddiant gan iddo gyflawni'r nodau cyhoynnol a chaniatáu i'r gwirfoddolwyr ennill profiad a sgiliau newydd mewn archifo a chofnodi adeilweithiau hanesyddol. Roedd y digwyddiad yn brofiad diddovol a difyr ac ni allaf aros tan yr un nesaf!



Ian's tale

We went to the Orchard in which the apple store was located. The group then helped the Dyfed Archaeological Trust staff to document the building in its present state. This involved assisting the measuring, drawing, and photographing of the building. The day was successful in achieving its initial aims and allowed the volunteers' to gain experience and new skills in archiving and recording historic structures. The event was an interesting and enjoyable experience and I can't wait for the next one!





Profi'r damcaniaethau: cloddio archaeolegol

Mae ein tirwedd gyfan yn ddogfen hanesyddol enfawr, sydd angen ei datrys a'i dehongli. Mae cloddio yn cael gafael ar dystiolaeth archaeolegol nad oes modd ei chael mewn unrhyw ffordd arall ac yn wir yn achos ein gorffennol cynhanes does dim hanes ysgrifenedig. Cloddiaid yn aml yw'r profiad cyntaf mae rhywun yn ei gael o fyd anhygoel archaeoleg - safleoedd poeth a llychlyd, crafu cyson y tryweli syncronedig a'r awyr ddisgwylgar o ddarganfyddiad ar fin cael ei wneud.

Beth bynnag, mae cloddio safle archaeolegol yn arbrawf na ellir ei ailadrodd gan fod yr union broses sydd yn ein galluogi i'w ddarllen hefyd yn ei ddinistrio. O'r herwydd mae'n rhaid cymryd gofal mawr i ddehongli'r dystiolaeth a gloddiwyd yn fanwl gywir.

Wrth gwrs nid yw dinistrio ein gorffennol materol drwy gloddio ddim yn rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn ac mae'n rhaid bod rhesymau dilys dros ei wneud. Cadwraeth yw'r arwyddair, ac felly os oes modd gadael llonydd i safle dylid gwneud hynny.

Wedi dweud hynny, mae cloddio wrth galon archaeoleg. Yn wir, dyna sy'n ei gosod ar wahân i astudio hanes. Treillio drwy falurion ein hynafiaid ydyw yn ei hanfod a mynd i'r afael â phethau a baeddu'u dwylo yw'r hyn sydd at ei gilydd yn denu pobl at y pwnc yn y lle cyntaf.

Mae gwerthusiadau fel gweithrediadau archwilio yn gyfle i brofi'r dyfroedd ac ennill gymaint o wybodaeth am y safle â phosibl gyda'r lleiaf posibl o amharu arno.

Testing the theories: archaeological excavation

The whole of our landscape is a vast historical document, which needs deciphering and interpreting. Excavation recovers archaeological evidence that is not obtainable in any other way and indeed in the case of our prehistoric past there is no written history. An excavation is often the first experience anyone has of the wonderful world of archaeology - hot, dusty sites, the steady scrape of synchronised trowels and the ever-expectant air of imminent discovery.

However, excavating an archaeological site is an unrepeatable experiment as the very process that enables us to read it, destroys it. Great care must therefore be taken to interpret the excavated evidence accurately.

Of course the destruction of our physical past through excavation isn't something to be taken lightly and there needs to be valid reasons for doing so. The watchword has to be preservation, so if a site can be left in peace it should be.

That said, excavation is at the heart of archaeology, indeed it is what sets it apart from the study of history. Trawling through the debris of our ancestors is what it's all about and getting down and dirty is what generally attracts people to the subject in the first place.

Evaluations are like an exploratory operation an opportunity to test the waters and gain as much information about the site with the least amount of disturbance.



O domus antiqua! Plasty Dan yr Allt o'r 16eg ganrif

Ymchwiliwyd i safle plasty o oes Elisabeth a oedd wedi cael ei ddymchwel ac a leolid yng nghalon Dyffryn Tywi. Mae'r parcedir o amgylch y plasty yn dal yn hawdd iawn ei weld, er nad oes dim o'r plasty ei hun ar ôl uwchben lefel y ddaear.

Roedd arolwg geoffisegol o'r ardal heb ddod i ddim casgliadau oherwydd sbwriel y gwaith dymchwel ac adeiladu llwybr fferm. Beth bynnag, darganfu'r cloddiaid ffos a allai fod yn hyn na'r plasty. Roedd hi'n anodd cael tystiolaeth am yr hen dŷ, gyda dim ond ymyl wyneb palmentog ac ychydig o rwbel y dymchwel yn dod i'r amlwg mewn un ffos. Cofnodwyd tair wal ar eu sefyll yn ffurfio tair ystafell gyda tho arnynt ar derfyn gorllewinol y safle. Ymddangosai eu bod yn perthyn i'r ffermdy o'r 19eg ganrif a godwyd ar ôl chwalu'r plasty.

"In the Winter of 1840-1841 the whole of the ancient mansion house of Danyrallt was razed to the ground by John William Lloyd Esquire of that place. O domus antiqua! Heu quarn dispari dominare domino!"

Y Parchedig H.R.Lloyd (perchennog ystad Dan yr Allt yn hanner cyntaf y 19^{eg} ganrif, yn dyfynnu o Cicero, De Officiis, I, 39, 139 'O dŷ hynafol! Och mai meistr mor wahanol sy'n rheoli drosot (bellach)')

Rev'd H.R.Lloyd (owner of Dan yr Allt estate in 1st half of 19th century, quoting from Cicero, De Officiis, I, 39, 139 'O ancient house! Alas by how different a master thou art (now) ruled')

O domus antiqua! Dan yr Allt 16th century mansion house

The site of a demolished Elizabethan mansion located in the heart of the Tywi valley was investigated. The parkland surrounding the mansion is still very visible, though nothing of the mansion itself survives above ground level.

A geophysical survey of the area proved inconclusive due to demolition rubbish and the construction of a farm track. However, the excavation discovered a ditch which might pre-date the mansion. Evidence for the former house unfortunately proved elusive, with only the edge of a paved surface and a small spread of demolition rubble being revealed in one trench. Upstanding walls forming three roofed rooms were recorded on the western boundary of the site. They appeared to be associated with the 19th century farmhouse built after the demolition of the mansion.



Yr Hen Danyrallt, o'r llun gwreiddiol gan HR Lloyd (1839), atgynhyrchwyd o Archaeologia Cambrensis.

Old Danyallt, from the original drawing by HR Lloyd (1839), reproduced from Archaeologia Cambrensis.



Uchod: Fila Rufeinig, tywydd Cymreig. Isod: Lluniau o dan y pridd, roedd arolwg geoffisegol yn datgelu ffiniau a gollwyd.

Above: Roman villa, Welsh weather. Below: Pictures beneath the soil, a geophysical survey reveals lost boundaries.



**Home from Rome:
Llys Brychan Roman Villa**

Brychan was the leader of the early medieval kingdom of Brycheiniog, which equates roughly to the region of Brecknockshire, with land stretching down to the Tywi.

Excavations in the early 1960s revealed a Roman villa, a large and imposing mansion, located above the floodplain of the Tywi some two miles south of Llangadog. A geophysical survey in 2009 not only confirmed the villa remains but also revealed a series of ditches forming an enclosure around it. Three trenches were excavated to evaluate the extent, quality and character of these features.

The main enclosure ditch was found to be V-shaped and of Roman date, with three sherds of Roman pottery retrieved from its fill. Numerous stones found in the upper fill of the ditch may represent a slumped bank. Evidence of a possible courtyard as well as indications of industrial activity were uncovered within the enclosure.




**Cartref o Rufain:
Fila Rufeinig Llys Brychan**

Brychan oedd arweinydd teyrnas ganoloesol gynnar Brycheiniog, sy'n cyfateb yn fras i ardal Sir Frycheiniog, gyda thiroedd yn ymestyn i lawr at Ddyffryn Tywi.

Bu i gloddiadau yn y 1960au cynnar ddatgelu Fila Rufeinig, plasty helaeth a mawreddog, wedi ei leoli uwchben gorlifdir Afon Tywi ryw ddwy filltir i'r dde o Langadog. Roedd arolwg geoffisegol yn 2009 nid yn unig yn cadarnhau olion y fila ond hefyd yn datgelu cyfres o ffosydd yn ffurfio tir caeedig o'i hamgylch. Cloddiwyd tair ffos i werthuso maint, ansawdd a chymeriad y nodweddion hyn.

Roedd prif ffos y tir caeedig o siâp V ac o oes y Rhufeiniaid, a chafwyd tri darn o grochenwaith Rhufeinig yn ei llenwad. Efallai bod y cerrig niferus a gafwyd yn llenwad uchaf y ffos yn cynrychioli clawdd wedi cwmpo. Datgelwyd tystiolaeth am iard bosibl yn ogystal ag arwyddion o weithgaredd diwydiannol yn y tir caeedig.



Houses for both the living and the dead at Dyffryn Ceidrych

Close to Carn Goch, on the edge of the Black Mountain, the remains of a medieval longhouse and a nearby Neolithic chambered tomb, known as Cae'r Ganfa or Cil y Ganfa, were investigated.

The longhouse was a drystone, or clay-bonded, structure of three rooms built on a levelled platform. Pottery retrieved from the evaluation trenches suggest a late-medieval date. Most of the original stone walls have been removed from the site apparently for re-use elsewhere.

When the chambered tomb was cleared of vegetation it was evident that a rectangular chamber, formed from long narrow stones, was located on the eastern side of a mound of turf-covered rubble stone. Parallel lines of stones were recorded both to the northnorthwest and westsouthwest of the chamber.



Yn glocwedd o'r uchod: Cynllun y tŷ hir, gwirfoddolwyr yn datgelu'r beddrod siambr, arolwg o'r beddrod siambr.

Clockwise from top: Plan of longhouse, volunteers expose chambered tomb, survey of chambered tomb.

Tai i'r byw a'r meirw yn Nyffryn Ceidrych

Yn agos i'r Garn Goch, ar gwr y Mynydd Du, ymchwilwyd i weddillion tŷ hir o'r oesoedd canol a siambr gladdu Neolithig gyfagos o'r enw Cae'r Ganfa neu Gil y Ganfa.

Roedd y tŷ hir yn adeilad cerrig sych, neu wedi'u cau â chlai, ac ynddo dair ystafell wedi ei godi ar lwyfan wedi'i lefelu. Mae crochenwaith o'r ffosydd gwerthuso yn awgrymu dyddiad o ddiwedd yr oesoedd canol. Mae'r rhan fwyaf o'r cerrig gwreiddiol wedi eu symud o'r safle i'w hailddefnyddio yn rhywle arall, mae'n ymddangos.

Pan gliriwyd y llystyfiant oddi ar y beddrod siambr roedd yn amlwg mai siambr betryal ydoedd, wedi ei ffurfio o gerrig culion hirion, ac wedi ei lleoli ar ochr ddwyreiniol tomen o gerrig rwbwl dan dywarch. Cofnodwyd llinellau cyfochrog o gerrig i'r gogledd ogledd orllewin a'r gorllewin de orllewin o'r siambr.





Dyddiadur cloddio Phil

Dechreuwyd ar ein hymchwiliad pythefnos yn Wernfawr, fferm anghyfannedd ger Penybanc y tu allan i Landeilo, yn ystod y gwanwyn. Daeth y safle i'n sylw gyntaf pan ddatgelwyd pâr o ffyrnau sychu yd gan gloddiadau o flaen gosod y bibell new yn 2007. Roedd adeilweithiau fel hyn yn gyffredin yn ymyl ffermydd ar un adeg, ond anaml y'u gwelir bellach. Bu i gloddiad bychan yn 2009 ganfod tystiolaeth am y tân trychinebus a arweiniodd at adael y ffermdy'n wag. A fydd y cloddiad hwn yn bwrw golau ar fywyd ar fferm yng nghefn gwlad?

Diwrnod 1 - Dydd Mawrth Ebrill 13 Dyma ddechrau ar y gorchwyl llafurus o dynnu'r tywarch a'r pridd sydd wedi casglu uwchben gweddillion y ffermdy ond mae'r heulwen odidog yn cadw pawb yn gwenu.

Diwrnod 2 - Dydd Mercher Mae profiad garddio Gwilym yn gaffaeliad wrth i ni geisio dirio mynedfa at y waliau sy'n sefyll, ex, wrth i'r portaloos fethu â chyrraedd, rydym yn dechrau edifaru i ni dynnu gymaint o lawni cyfleus.

Diwrnod 3 - Dydd Iau Mae llawr llechen trawiadol eisoes yn ymddangos ar un pen — wedi ei lanhau'n ofalus gan Ken a'i blant, a'i lanhau'n llai gofalus gan Gwilym a'i gaib.

Diwrnod 4 - Dydd Gwener Anthony a Celia yn dechrau dadorchuddio waliau'r ffermdy ym mhen deheuol yr adeilad.



Chwith: Phil yn gwenu i'r papurau. Uchod: Poteli wedi'u toddi'n siapiau Dali-ésg gan y tân difaol. Y dde: Gweddillion llosg ffermdy o'r 19eg ganrif yn Sir Gaerfyrddin, Wernfawr fe gredir.

Left: Phil poses for the press. Centre: bottles melted into Dali-esque shapes by the devastating fire. Right: burnt remains of a 19th century Carmarthenshire farmhouse, believed to be Wernfawr.



Phil's dig diary


We began our two-week investigation at Wernfawr, a deserted farmstead near Penybanc outside Landeilo, during the spring. The site first came to our attention when excavations ahead of the construction of the gas pipeline in 2007, revealed a couple of corn drying ovens. These structures, which were once common near farmsteads, are now rarely seen. A small excavation in 2009 discovered evidence of the catastrophic fire that led to the abandonment of the farmhouse. Will this dig shed light on life on a rural farmstead?

Day 1 - Tuesday 13th April We begin the arduous task of removing the turf and soil build-up over the remains of the farmhouse but the glorious sunshine keeps everyone smiling.

Day 2 - Wednesday Gwilym's gardening experience comes in handy as we try to clear access to the standing walls, although, as the portaloos fail to arrive, we begin to regret removing so many convenient bushes.

Day 3 - Thursday Already an impressive slate floor is showing up at one end - carefully cleaned by Tony and Ken with his kids, less carefully cleaned by Gwilym and his pick.

Day 4 - Friday Anthony and Celia begin to uncover the farmhouse walls at the southern end of the building.





Diwrnod 5 - Dydd Sadwrn Mor benderfynol ynghylch yr archaeoleg, mae Kieran yn cael ei gloddio o 'na.

Diwrnod 6 - Dydd Sul Ar ddiwedd yr wythnos gyntaf mae'r ffermdy yn dechrau dod i'r golwg a datgelir nifer o ystafelloedd gwahanol. Un o ganfyddiadau mwy annisgwyl y penwythnos oedd madfall dŵr fechan yn cysgodi ymysg rhai o'r cerrig rhydd.

Diwrnod 7 - Dydd Mawrth Mae Mike yn brwydro drwy bridd llawn gwreiddiau i ddadorchuddio mwy ar ben domestig y tŷ a'r llawr llechen hyfryd.

Diwrnod 8 - Dydd Mercher Mae coridor coblog yn cael ei lanhau'n dda ar ben 'busnes' y ffermdy, a oedd yn fynedfa ac yn draen mewn darn a ddefnyddid mae'n debyg fel llaethdy a stalau anifeiliaid.

Diwrnod 9 - Dydd Iau Dau weithiwr prydeinig go iawn, Matt a Tony yn edmygu techneg cloddio Simon.

Diwrnod 11 - Dydd Sadwrn Yr ystafell olaf yn y ffermdy yn dod i'r golwg gyda'i llawr coblog. Gweddillion stabl efallai wedi ei ychwanegu o dan stalau'r anifeiliaid, neu a yw'r pen hwn i'r adeilad mewn gwirionedd yn ffermdy hŷn?

Day 5 - Saturday So intent on the archaeology, Kieran gets shovelled away

Day 6 - Sunday At the end of the first week the farmhouse begins to take shape and several different rooms are revealed. One of the more unexpected finds of the weekend, a small nest sheltering among some of the loose stones.

Day 7 - Tuesday Mike battles through root-encrusted soil to uncover more of the comfy domestic end of the house with its nice slate-slab floor.

Day 8 - Wednesday A cobbled corridor is cleaned up nicely at the 'business' end of the farmhouse, acting as an entranceway and drain in an area presumably used as a dairy and animal stalls.

Day 9 - Thursday True British workmen, Matt and Tony admire Simon's shovelling technique.

Day 11 - Saturday The last room in the farmhouse is revealed with its cobbled floor. Perhaps the remains of a stable tagged on below the animal stalls, or is this end of the building actually an older farmhouse?




Diwrnod 13 - Dydd Mawrth Yr wythnos olaf a chofnodir llawr llechen deniadol y gegin/parlwr. Trafodaethau ar y safle yn parhau wrth i'r tîm geisio gwneud synnwyr o'r amrywiaeth o fathau gwahanol o godi waliau sy'n gwneud y ffermdy.

Diwrnod 14 - Dydd Mercher Cyfres o ymweliadau gan ysgolion â'r safle, wrth i fwy o ddarpar Indiana Joneses ddod i wybod am hanes Wernfawr.

Diwrnod 16 - Dydd Gwener Gwneir cynllun gofalus o'r ffermdy, gan dynnu llun pob carreg a phost-dŵll i gael cofnod llawn o'r hyn a ddatguddiwyd gennym.

Diwrnod 18 - Dydd Sul Ar y diwrnod olaf ond un datguddir pyden mawr yn Ffos 2, a gwelwn faint o wirfoddolwyr sy'n gallu ffitio tu fewn iddo. Gwaetha'r modd, nid oedd yn cynnwys trysor y teulu. Ymddengys iddo gael ei gloddio i ddim ond codi'r siâl.

Diwrnod 19 - Dydd Llun 3ydd Mai Mae ymwelwyr â'r safle ar y diwrnod olaf yn cael eu tywys ar deithiau ac mae'r rhuthr munud olaf arferol yn golygu nad yw oed ddim yn rhwystr i roi cymorth. Dyma Lwsi yn baeddu'i dwylo yn enn archaeoleg.



Day 13 - Tuesday The final week and the finely laid slate-slab floor of the kitchen / parlour is recorded. On site discussions continue as the team try to make sense of the variety of different types of wall construction that make up the farmhouse.

Day 14 - Wednesday A series of school visits to the site, as more budding Indiana Joneses find out about the history of Wernfawr.

Day 16 - Friday The farmhouse is carefully planned, each stone and posthole drawn, to get a full record of what we've uncovered.

Day 18 - Sunday On the penultimate day a large pit is uncovered in Trench 2, we see how many volunteers can fit inside it. Unfortunately it did not contain the family treasure, appearing to have been dug just to extract the shale.

Day 19 - Monday 3rd May Visitors to the site on the final day are given guided tours and the usual last minute rush means age is no barrier to helping out. Lwsi gets her hands dirty in the name of archaeology.





Synhwyro'r gorffennol

“Mae gan yr hyn a wnawn mewn bywyd ei adlais mewn tragwyddoldeb” (o *Gladiator*) neu, efallai'n llai ymhonnus, “Ni ydyw Hanes” (*Marcus Brigstocke*).

Mae'r gorffennol yn dal i adleisio yn ein presennol. Nid gwrthrych disymud a phell ar gyfer astudiaeth academiaidd mohono ond rhywbeth sy'n fyw ym mhawb ohonom ni, yn dylanwadu ar ein canfyddiad o'r byd a rhywbeth sy'n cael ei aildehongli byth a hefyd.

Mae *Chwilota'r Tywi!* wedi ymwneud â hanes y dyffryn mewn ffyrdd uniongyrchol iawn, o blant ysgol yn cysylltu â gorffennol cynhanes at bobl mewn oed yn hel atgofion am adeg y rhyfel a phobl tref Llandeilo yn adfywio hen draddodiadau adeg y Nadolig yn ystod Gŵyl y Synhwyrau. Dathlwyd Gŵyl Genedlaethol Archaeoleg Prydain 2010 gyda deuddydd o ddigwyddiadau ym Methlehem a'r cyffiniau a bryngaer ysblennydd y Garn Goch o'r Oes Haearn. Ydy, mae hanes yn gallu bod yn hwyl!

Sensing the past

“What we do in life echoes in eternity”. (from *Gladiator*) or, perhaps less pretentiously, “We are History” (*Marcus Brigstocke*)

The past does still echo in our present. It's not a static, remote object for academic study but lives on in all of us, influencing our perception of the world and is forever being reinterpreted.

Exploration Tywi! has engaged with the history of the valley in very direct ways, from schoolchildren connecting with a prehistoric past to the elderly reminiscing about wartime memories and the townsfolk of Llandeilo reviving ancient yuletide traditions during the Festival of the Senses. The 2010 National Festival of British Archaeology was marked by two days of events held in and around Bethlehem and the spectacular Carn Goch Iron Age hillfort. Yes, history can be fun!



Uchod a'r dde bellaf:
Henffych Gesar!
Maximus yn dangos
pwyl sy'n rheoli.
Y dde: Y cynlluniau
gorau - y plant yn
paratoi i greu uffern!

Above and far right:
Hail Caesar! Maximus
shows who's in
charge. Right:
The best laid plans -
the kids prepare to
unleash hell!



Luniau gan Mike Ings / Photos by Mike Ings

Ymweliadau ysgolion

Torrwyd ar dawelwch heddychlon y Garn Goch gan luoedd sgrechlyd o Geltiaid bychain yn ystod yr haf. Drwy gydol yr wythnos dringwyd ei hamddiffynfeydd serth gan don ar ôl ton o blant ysgol yn gwisgo paent rhyfel. Yn gynharach yn y dydd roeddent yn dod wyneb yn wyneb â'r canwriad Rhufeinig 'Maximus', a gyfarthai arnynt yn Lladin. Yn wir roedd rhaid iddo dawelu dipyn arni am fod plant yr oes hon yn amlwg yn cael dyn mewn het ryfedd a sgerd yn gweiddi arnynt mewn iaith ddiethr yn dipyn o ofid! Roedd cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu cynnig yn neuadd bentref Bethlehem, gan gynnwys gwneud crochenwaith, dweud straeon ac ysgrifennu ar lechi cwyr, cyn bod pethau yn symud i'r awyr agored. Wedi archwilio strategol, rhannodd y plant yn grwpiau i ddyfeisio'r ffyrdd gorau i ymosod neu amddiffyn y gaer ar y bryn - gan blotio'u strategaethau ar gynlluniau brwydrau a ddarparwyd iddynt. Roedd pawb yn ddirugaredd!

Fedrai paciau gwybodaeth addysg ar gyfer athrawon a rhieni, mwy o luniau o'r digwyddiadau ysgol a chopiau o'r cynlluniau brwydr cael eu gweld a'u dadlwytho arlein ar www.dyfedarchaeology.org.uk a www.tywiafonyoesoedd.co.uk

School visits

The peaceful tranquility of Carn Goch was invaded by screaming hordes of mini Celts during summer 2010. Throughout the week wave after wave of war-painted schoolkids scaled its steep defences. Earlier in the day they'd come face to face with Roman centurion 'Maximus', who'd barked at them in Latin. Indeed he'd had to tone it down as modern children obviously found a man in a funny hat and skirt shouting in a strange tongue rather distressing! A series of activities was on offer in Bethlehem village hall, including pot-making, story-telling and wax tablet-writing, before things moved outside. Having reconnoitred, the kids split into groups to devise the best ways of attacking or defending the hillfort - plotting their strategies on provided battle plans. No quarter given or asked!

Educational information packs for teachers and parents, further photographs from the schools' events and copies of the battle plans can be seen and downloaded online at www.dyfedarchaeology.org.uk and www.tywiafonyoesoedd.co.uk

Luniau gan Mike Ings / Photos by Mike Ings



Luniau gan Mike Ings / Photos by Mike Ings



Lun drwy garedigrwydd Gweneira Davies ac David Tom Rees / Image provided by Gweneira Davies and David Tom Rees

Llangathen Home Guard 1940

O'r chwith pellaf: Y Sarsiant W.O. Stephens. Miss Aileen Stephens yn darllen dyddiadur ei thad, yn manylu ar ei amser yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

From far left: Sergeant W.O. Stephens. Miss Aileen Stephens reads her father's diary, detailing his time in the trenches during the 1st World War, Llangathen Home Guard.

Rhyfel yn y Dyffryn

Wrth gwrs, nid oes rhaid i'r gorffennol fod ymhell yn ôl iddo fod yn ddiddorol dros ben. Mae digwyddiadau'r gorffennol agos iawn lawn mor afaelgar ac mae eu huniongyrchedd yn ychwanegu at eu dwyster. Mae clywed hanesion gan y bobl oedd yn eu byw yn faint arbennig, gan eu bod yn rhoi synnwyr gwirioneddol o'r gorffennol.

Yn Llandeilo mae Miss Elizabeth Aileen Stephens yn byw a bu mor garedig â chytuno i rannu ei hatgofion â ni am fywyd yn y dref a soniodd wrthym am ddewrder ei thad yn y ffosydd yn y rhyfel byd cyntaf.

Yn ei ddyddiadur rhyfeddol, cawn wybod fod y Sarsiant W.O. Stephens wedi cael ei anafu ym 1915 ym Mrwydr Loos yng Ngogledd Ffrainc. Mae Miss Stephens yn dweud yr hanes - "Cafodd ei anafu wrth achub swyddog yn Loos yng nghanol yr holl fwd a'r gwaed, er ei fod wedi ei anafu ei hun, ac o ganlyniad dyfarnwyd iddo'r Fedal Ymddygiad Rhagorol." Daeth yn ôl ar long i Brydain i'w nyrsio ym Birmingham cyn dychwelyd i Llandeilo. Mae'r dyfyniad ar gyfer y Fedal yn darllen "Am ddewrder amlwg. Er cael ei anafu yn ystod yr ymosodiad, daliodd

ati i arwain ei ddynion tan y bu'n rhaid iddo roi'r gorau iddi oherwydd blinder, wedi cael ei anafu eto yn ffos ail linell y gelyn".

Wrth gwrs, nid yw hanes bob amser ynghylch campau dewr ac arwriaeth. Weithiau manylion mwy rhyfedd y gorffennol sy'n dal y sylw. Dywedodd Miss Stephens y chwedl annisgwyl braidd hon wrthym am brofiad Gwartheg Gwynion Parc Dinefwr yn yr Ail Ryfel Byd; "Mae fy mrawd yn cofio i'r gwartheg gael eu paentio... am y bydden nhw wedi cael eu gweld yn wyn, yn sefyll ma's yn y tywyllwch, ac felly dyna eu cuddliwio. Yna roedden nhw'n ymosod ar ei gilydd ... doedden nhw ddim yn adnabod ei gilydd!"

Ymysg yr atgofion eraill am Landeilo yn yr Ail Ryfel Byd yr oedd defnyddio Tŷ Newton fel ysbyty, ble oedd mam Miss Stephens yn nyrs gyda'r Groes Goch yn gofalu am filwyr wedi'u hanafu. Roedd cytiau Nissen duon wedi eu codi gan yr Americanaid, ac er na chawsant eu defnyddio erioed fel ysbytai, buont yn llety dros dro i deuluoedd a gollodd eu cartrefi yn ystod y cyrchoedd bomio ar Abertawe.

The valley at war

Of course the past doesn't have to be distant to be fascinating. Events of the very recent past are just as gripping and their immediacy lends them an added poignancy. To hear tales from those who actually lived them is a real privilege, imparting a tangible sense of the past.

Llandeilo resident Miss Elizabeth Aileen Stephens kindly agreed to share her memories of life in the town and told us of her father's bravery in the trenches of the 1st World War.

From his remarkable diary, we learn that Sergeant W.O. Stephens, was injured at the 1915 Battle of Loos in Northern France. Miss Stephens tells the tale - "He was injured rescuing an officer at Loos amongst all the mud and gore, although he was wounded himself and as a result he was awarded the Distinguished Conduct Medal". He was shipped back to Britain to be nursed in Birmingham before returning to Llandeilo. The citation for the DCM reads "For conspicuous gallantry. Although wounded during the attack, he continued to lead his men until he was obliged to give in from exhaustion, having been again

wounded in the enemy's second line trench".

Of course, not all history is about courageous acts and derring-do. Sometimes it is the quirkier details of the past that catch the eye. Miss Stephens told us this rather unexpected tale about the 2nd World War experience of Dinefwr's White Park Cattle: "My brother remembers the cows being painted...because they would have been seen as white, stand out in the dark you see, so they were camouflaged. Then they quarrelled ...they didn't recognise each other!"

Other memories of Llandeilo in the 2nd World War included the use of Newton House as a hospital, where Miss Stephens's mother was a Red Cross nurse attending to injured soldiers. Black Nissen huts were built by the Americans, although they never actually got used as hospitals, they became temporary accommodation for families made homeless during the bombing raids on Swansea.





Byddai'r **Fari Llwyd**, neu'r gaseg lwyd, yn clepian ei dannedd ac yn mynd ar ôl pobl wrth iddi gael ei thywys o amgylch y pentref adeg y Calan. Roedd hi wedi ei gwneud fel arfer o benglog ceffyl, gyda'r ên isaf yn gweithio gyda sbring, wedi ei gosod ar bolyn a dyn wedi'i guddio o dan gynfas wen yn ei gweithio. Wrth bob tŷ byddai yna gystadleuaeth rigymu tan byddai'r gaseg a'i gweision yn cael mynd i mewn, gan fynnu rhywbeth i fwyta!



The **Mari Llwyd**, or grey mare, would snap its teeth and chase people as it was led around the village at New Year. It was usually made from a horse skull, with a spring-operated lower jaw, mounted on a pole and worked by a man hidden beneath a white sheet. At each house there would be a rhyming contest until the horse and its attendants were allowed to enter, demanding something to eat!

Gŵyl y Synhwyrâu

Mae Gŵyl y Synhwyrâu yn ddigwyddiad blynyddol yn Llandeilo, sy'n cael pobl yn yr hwyliau ar gyfer cyfnod y Nadolig gyda cherddoriaeth, tân gwylt a siopa hwyr. Drwy *Chwilota'r Tywi!* mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed wedi croesawu dathlwyr drwy'r drysau i alw'n ôl ysbryd Nadoligau a fu. Roedd traddodiad erchyll braidd Hela'r Dryw a'r Fari Llwyd ddychrynlyd yn arferion poblogaidd yng Nghymru. Roedd a wnelo'r ddau a mynd o dŷ i dŷ, yn ceisio lluniaeth a rhoddion. Dyma arferion cymunedol du eu hiwmor a roddai ryw lun o wefr yn y dathliadau. Rhannodd pobl eu traddodiadau eu hunain drwy lynu eu meddyliau ar fwrdd atgofion. Roedd y rhain yn cynnwys rhywun yn cofio dyn glanhau simnai yn cerdded drwy'r tŷ ar Nos Galan ac yn gadael drwy'r drws cefn, gan fynd â'r hen flwyddyn i'w ganlyn, a phan ddechreuai'r cloc daro hanner nos, roedd y plentyn ieuengaf wedi gwisgo lan yn cerdded drwy'r drws blaen i ddod â'r flwyddyn newydd i mewn. Mae'r sawl sy'n ysgrifennu yn cofio mai ef oedd y plentyn hwnnw ym 1947. Amrywiai'r atgofion eraill o blant yn ymweld â phob cartref yn y pentref i 'ganu' y flwyddyn newydd i mewn a chynnig darn mân a gloyw o lo, at draddodiadau mwy diweddar fel cinio gyda'r teulu a gwyltio *The Great Escape* neu *Gremlins*.

Festival of the Senses

The Festival of the Senses is an annual event in Llandeilo, getting people geared up for the festive period with music, fireworks and late-night shopping. Through *Exploration Tywi!*, The Dyfed Archaeological Trust has welcomed revellers through its doors to evoke the spirit of Christmas past. The rather macabre tradition of Hunting the Wren and the gruesome Mari Llwyd were popular customs in Wales. Each involved going from house to house, in search of refreshment and reward. Community-based, black-humoured customs that lent a certain frisson to the festivities. People shared their own traditions by sticking their thoughts to a memory board. These included someone remembering a chimney sweep walking through the house on New Year's Eve and leaving via the backdoor, taking the old year out while, at the first strike of midnight, the youngest child dressed up and walked through the front door to bring in the new year. The writer recalls being this child in 1947. Other memories ranged from children visiting every home in the village to 'sing in' the new year and offer a small, bright piece of coal, to more recent traditions like family dinners and watching *The Great Escape* or *Gremlins*.





Gŵyl y Garn Goch

"I lawer roedd y cyfle i wisgo lan yn nillad y Celtiaid, cael eu hwynebau wedi'u paentio gyda chynlluniau rhyfedd a rhyfeddol a chael taflu gwaywffon at faedd gwyllt yn ormod o demtasiwn – ac nid i'r plant yn unig!

Ar ddechrau'r mis roedd y Garn Goch, bryngaer o'r Oes Haearn, uwchben Bethlehem, yn fangre ar gyfer achlysur rhad ac am ddim fel rhan o Wyl Genedlaethol Archaeoleg Prydain, a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Hefyd ar gael oedd teithiau archaeolegol a daearegol o amgylch yr heneb ei hun, arddangosiadau gwneud clwydi a malu blawd a chyfle i greu campwaith mewn crochenwaith. Rhostiwyd mochyn i gadw draw poenau moyn bwyd. Troellwyd edafedd mewn pabell groen, mewn geiriau a gwlan, wrth i chwedleuwyr weu straeon o fytholeg y Celtiaid ac wrth i nyddwyr dynnu eu hedeifion."

The Carmarthen Journal 18/08/2010

Yn glocwedd o'r chwith: Gofal, ffyn bara! Pwy se'n meddwl – colur yr Oes Haearn, siopa am ginio yn yr Oes Haearn, yn glynu gyda'i gilydd, Paula, Toby ac Olly fel Celtiaid, plethu cyn rhoi'r clai, paid â phwyntio hunna ata' i, llun adlunio bryngaer y Garn Goch.

Carn Goch Festival


"For many, the chance to get dressed up in Celtic clothes, get their faces painted with weird and wonderful designs and throw a spear at a wild boar proved irresistible - and not just for the kids!

At the turn of the month Carn Goch Iron Age hill fort, above Bethlehem, paid host to a free event held as part of the National Festival of British Archaeology, run by the Dyfed Archaeological Trust and Brecon Beacons National Park.

Also on offer were archaeological and geological tours around the monument, demonstrations of hurdle making and flour milling and the chance to create a pottery masterpiece. A hog-roast kept hunger pangs at bay. Yarns were spun in a yurt, both in wool and words, as storytellers wove tales of Celtic mythology while spinners teased their threads."

The Carmarthen Journal 18/08/2010

Clockwise from left: Careful, bread sticks! Woad you believe it - Iron Age make-up, shopping for dinner Iron-Age style, stick together, Paula, Toby and Olly Celt it up, wattle before daub, don't point that thing at me, reconstruction drawing of Carn Goch hill fort.



Drawing by Neil Ludlow

Mae *Chwilota'r Tywi!* yn dal yn fyw, ac mae canlyniadau'r archwiliadau a wnaed gan y gymuned yn cael eu cadw yng Nghofnod Hanesyddol yr Amgylchedd yn Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ac mae llawer ohonynt ar gael i'w gweld neu lwytho i lawr naill ai drwy'r gwefanau www.tywiafonyroesoedd.co.uk a www.dyfedarchaeology.org.uk neu drwy www.archwilio.org.uk lle cânt eu cynnal a bydd adeiladu arnynt drwy brosiectau a gwaith ymchwil yn y dyfodol. Mae hyn yn cynyddu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch gorffennol y dyffryn a bydd yn ein cynorthwyo i goleddu a gwarchod ei nodweddion arbennig ar gyfer y dyfodol. Dyma gymynrodd *Chwilota'r Tywi!*



Exploration Tywi! lives on, the results of the investigations carried out by the community are held in the Historic Environment Record at the Dyfed Archaeological Trust and much is available to view or download either through the websites www.tywiafonyroesoedd.co.uk and www.dyfedarchaeology.org.uk or through www.archwilio.org.uk where it will be maintained and built on through future projects and research. This increased knowledge and understanding of the valley's past will help us all to cherish and protect its special qualities for the future. This is the legacy of *Exploration Tywi!*

